Elin Meek

Pan o'n i'n blentyn, ro'n i'n arfer dwlu ar dreulio'r prynhawn yn darllen mewn sach gysgu gyda phentwr o lyfrau wrth law. Roedd mynd i'r llyfrgell yng Nghaerfyrddin yn antur fawr bob amser. Ond y cyffro mwyaf oedd cael dewis llyfr newydd sbon i'w brynu yn y dref.

Mae llyfrau wedi bod fel ffrindiau gorau i mi erioed. Felly, mae'n braf iawn cael addasu ac ysgrifennu llyfrau a gobeithio y bydd ambell lyfr yn ffrind gorau i rywun arall. Gydag addasu, bydd yr awdur wedi gwneud y gwaith caled yn barod. Dim ond trosi'r stori sydd ei angen er mwyn ei chael i swnio fel petai wedi'i hysgrifennu yn Gymraeg yn wreiddiol. Mae addasu wedi bod yn help i mi ddechrau ysgrifennu. Wrth addasu gwaith nifer o awduron Saesneg da, ces amser i graffu ar batrwm.

Ac efallai, dysgu nifer o dechnegau sy'n ddefnyddiol wrth ysgrifennu stori fy hunan.

adnabod awdur

www.gomer.co.uk

Gomer

Elin.indd 1 26/7/06 4:06:37 pm

Enw	Elin Meek
Pen blwydd	Awst
Geni	Treforys, Abertawe.
Ysgolion	Ysgol y Dderwen, Caerfyrddin, Ysgol Ramadeg y Merched, Caerfyrddin.
Diddordebau	Canu mewn côr, darllen, tyfu llysiau ar y llain, nyddu a gwau.
Hoff fwyd	Llysiau o'r llain, cig cranc, siocled tywyll.

Beth oedd eich hoff lyfr pan oeddech yn blentyn?

Llyfr lluniau o'r enw 'Tedi'r Ffarmwr Bach'. Roedd ynddo lawer o luniau o Tedi yn y Swistir a gwartheg â chlychau am eu gyddfau.

Beth sy'n eich gwylltio chi?

Pobl a gwledydd sy'n methu cytuno â'i gilydd.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?

Treulio amser gyda'r teulu, gweld hadau'n egino ac adar yn yr ardd.

Pryd dechreuoch chi feddwl am addasu/ysgrifennu?

Addasais rai nofelau i bobl ifainc gan Jean Ure pan o'n i'n fyfyriwr. Yn ddiweddarach, gofynnodd golygydd yng Ngwasg Gomer i mi addasu ac ysgrifennu storïau.

Pa un oedd eich addasiad cyntaf/ stori gyntaf?

Addasu: *Wela i di* gan Jean Ure.
Ysgrifennu: Stori 'Rali Monte Carlo' yn *Straeon.dot.com*

Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd i ysgrifennu?

Mae addasu gymaint yn haws! Fel arfer dw i'n casáu meddwl am ddechrau ysgrifennu. Ond mae'n iawn os ydw i wedi cynllunio'r stori neu'r llyfr yn ddigon gofalus.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau?

Mae fy ngŵr wedi rhoi rhai syniadau i mi am storïau am geir a moto-beics. O ran syniadau eraill, mae'n anodd dweud, maen nhw'n dod o rywle neu ddim o gwbl!

Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?

Darllenwch lyfrau awduron eraill. Weithiau mae'n help i ddefnyddio 'patrwm' i ddechrau. A daliwch ati!

Oes unrhyw beth yr hoffech chi ei newid amdanoch chi eich hunan?

Hoffwn allu peidio poeni cymaint am bethau dibwys.

Beth sy'n gwneud i chi chwerthin?

Jôcs y plant, pethau dwl dwi wedi eu dweud a'u gwneud dros y blynyddoedd.

Pa raglenni teledu yw eich ffefrynnau?

Rhaglenni natur, yn arbennig am fywyd y môr.

Beth yw eich hoff atgof?

Rhedeg drwy gae o wair hir ar fferm Tad-cu a Mam-gu gyda Meg y ci defaid i nôl dŵr o'r ffynnon i Mam-gu.

Beth yw eich hoff le yn y byd?

Traeth Porth Mawr, ger Tyddewi, gyda Carn Llidi ac Ynys Dewi yn y cefndir.

Oes gyda chi un peth rydych chi'n ei drysori'n fwy na dim arall?

Ffotograffau o'r teulu.

Unrhyw gyfrinachau eraill yr hoffech eu rhannu â phlant Cymru?

Cofiwch fod llyfrau'n ffrindiau i chi am oes.

Rhai o lyfrau Elin Meek

Y Llygad Ddall
1 84323 666 4 £4.99

Helpwch eich Plentyn Taclo'r Treigladau
1 84323 636 2 £4.99

Ffrindiau Gorau
1 84323 577 3 £5.99

Ffion a'r Tim Rygbi
1 84323 465 3 £3.99

Y Ci Mawr Blewog
1 84323 521 8 £3.99

Y Crwban a'r Ysgyfarnog
1 84323 446 7 £14.99

Dwy Droed Chwith
1 85902 689 3 £3

Byd Ceffylau
1 84323 630 3 £5.99

Byd Deinosoriaid
184323 634 6

Byd Bale
1 84323 632 X

Mam-gu Penrhiw a'r Barcud Coch olaf
1 84323 732 65 £5.99

Mr Penstrwmbl a'r Ddraig Fach
1 84323 450 5 £4.99